**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 20 Hydref 2020**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGANIADAU O GYSYLLTIAD | Datganodd y Cynghorwyr Bobby Feeley a Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol yn eitem 7 – Ymestyn Fframwaith Hamdden DU y Cyngor,  oherwydd eu bod yn Gyfarwyddwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyf. |
| **3** | MATERION BRYS | Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru y diwrnod cynt y bydd Cymru i gyd yn cael ei rhoi dan gyfyngiadau cyfnod clo byr mewn ymdrech i geisio ailafael mewn rheolaeth ar y coronafeirws. |
| **4** | COFNODION | Pleidlais: 8 o blaid, 0 yn erbyn, 0 ymataliad<br><br>***PENDERFYNWYD*** *y dylid, yn amodol ar un pwynt o gywirdeb, derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2020 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.* |
| **5** | DULL ARFAETHEDIG O DENDRO AR GYFER CAM 1/ GALLUOGI CONTRACT GWAITH AR GYFER ESTYNIAD I YSTÂD DDIWYDIANNOL COLOMENDY GAN GYNNWYS GORSAF TROSGLWYDDO GWASTRAFF CSDd | Pleidlais: 8 o blaid, 0 yn erbyn, 0 ymataliad<br><br>***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) Caniatau'r ymarfer tendro arfaethedig, a*<br><br>*(b) Nodi y bydd adroddiad arall yn cael ei roi gerbron y Cabinet (drwy'r Grŵp Buddsoddi Strategol) i geisio cymeradwyaeth i'r Dyfarniad Contract dilynol ar ôl* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *yr ymarfer tendro, a fydd hefyd yn cadarnhau'r trefniadau rheoli contract, costau'r tendr a manylion y contract.* |
| **6** | EITEM O'R PWYLLGOR CRAFFU – ADOLYGU PENDERFYNIAD CABINET SY'N BERTHNASOL I GAEL GWARED AR DIR YN YMYL YSGOL PENDREF, DINBYCH | Pleidlais: 4 o blaid, 4 yn erbyn, 0 ymataliad; Defnyddiodd yr Arweinydd ei bleidlais fwrw i bleidleisio o blaid y penderfyniad.<br><br>***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet* **–**<br><br>*(a) Yn cydnabod casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn dilyn ei adolygiad o benderfyniadau'r Cabinet ar 22 Medi 2020;*<br><br>*(b) Ar ôl adolygu eu penderfyniad ac ystyried argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau, gadarnhau penderfyniad y Cabinet ar 22 Medi i:*<br><br>*(i) cymeradwyo gwaredu tir wrth ymyl Ysgol Pendref, Dinbych a amlinellir mewn coch ar y cynllun (Atodiad A yr adroddiad) nad oes ei angen ar y Cyngor, ar y farchnad agored ar gyfer datblygiad preswyl, a dirprwyo awdurdod i'r Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol i gymeradwyo'r gwerthiant terfynol, a*<br><br>*(ii) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall a chymryd yr Asesiad o Effaith ar Les i ystyriaeth (Atodiad B o'r adroddiad) fel rhan o'i benderfyniad.* |
| **7** | ESTYNIAD I FFRAMWAITH HAMDDEN Y DU Y CYNGOR | Pleidlais: 8 o blaid, 0 yn erbyn, 0 ymataliad |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo estyniad i Fframwaith Hamdden y DU tan Ionawr 2022 ar yr un telerau ag y cafodd ei ddyfarnu, ac mewn unrhyw achos bydd y fath gyfnod o estyniad wedi'i gyfyngu i 50% o werth y cytundeb fframwaith gwreiddiol yn unol â Rheoliad 72 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.* |
| **8** | CONTRACT CAEL GWARED AR ASBESTOS | Pleidlais: 8 o blaid, 0 yn erbyn, 0 ymataliad<br><br>***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn* **–**<br><br>*(a) Cytuno i gychwyn y broses gaffael a hysbysebu ar gyfer y contract gwaith hwn gyda Chontractwr Cael Gwared ar Asbestos*<br><br>*(b) Cytuno y dylid gweithredu ar unwaith yn dilyn y penderfyniad uchod er mwyn rhwystro unrhyw oedi o ran dyfarnu'r contract, a*<br><br>*(c) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau;* |
| **9** | ADRODDIAD CYLLID | Pleidlais: 8 o blaid, 0 yn erbyn, 0 ymataliad<br><br>***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2020/21 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol a gytunwyd.* |
| **10** | RHAGLEN GWAITH I'R | Pleidlais: 8 o blaid, 0 yn erbyn, 0 ymataliad |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 20 Hydref 2020**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |